OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 28 (Cy. 10)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *13 Ionawr 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *25 Chwefror 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 55(2)(f) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2016 a daw i rym ar 25 Chwefror 2016.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan C o'r Atodlen, yn lle Dosbarth C3 rhodder—

"**Class C3. Dwellinghouses**

Use as a dwellinghouse (whether or not as a sole or main residence) by—

(a) a single person or by people to be regarded as forming a single household;

(b) not more than six residents living together as a single household where care is provided for residents; or

(**1**) 1990 p. 8.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), gweler y cofnodion priodol yn Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 1987/764 a ddiwygiwyd gan O.S. 1994/724 ac O.S. 2006/1386 (Cy. 136). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(c) not more than six residents living together as a single household where no care is provided to residents (other than a use within class C4).

**Interpretation of Class C3**

For the purposes of Class C3(a) "single household" is to be construed in accordance with section 258 of the Housing Act 2004(**4**)."

(3) Yn Rhan C o'r Atodlen, ar ôl Dosbarth C3 mewnosoder—

"**Class C4. Houses in multiple occupation**

Use of a dwellinghouse by not more than six residents as a house in multiple occupation.

**Interpretation of Class C4**

For the purposes of Class C4 a "house in multiple occupation" does not include a converted block of flats to which section 257 of the Housing Act 2004 applies but otherwise has the same meaning as in section 254 of the Housing Act 2004."

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

13 Ionawr 2016

(**4**) 2004 p. 34. Mae adran 254 o Ddeddf Tai 2004 hefyd yn berthnasol.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (O.S. 1987/764) ("y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd").

Mae'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yn pennu dosbarthiadau defnydd adeiladau neu dir arall at ddibenion adran 55(2)(f) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae adran 55(2)(f) yn darparu nad datblygiad yw newid defnydd pan fo'r defnydd blaenorol a'r defnydd newydd o fewn yr un dosbarth. Nid oes angen caniatâd cynllunio ar newidiadau defnydd nad ydynt i'w hystyried fel datblygiad.

Mae erthygl 2(2) yn diwygio Dosbarth Defnydd C3 (tai annedd) er mwyn:-

(1) cynnwys diffiniad o "single household" sy'n gymwys i Ddosbarth C3(a) yn unig;

(2) diddymu o gwmpas Dosbarth C3(c) dai amlfeddiannaeth sy'n dod o dan y Dosbarth C4 newydd.

Mae erthygl 2(3) yn cyflwyno Dosbarth Defnydd C4 newydd (tai amlfeddiannaeth) sydd, yn ddarostyngedig i eithriad, yn cynnwys defnyddio tŷ annedd fel tŷ amlfeddiannaeth fel y'i diffinnir yn adran 254 o Ddeddf Tai 2004. Yn fras, mae'r defnydd hwn yn digwydd pan fo llety preswyl o dan denantiaeth wedi ei feddiannu gan 3 i 6 o bobl fel eu hunig neu brif breswylfa, nad ydynt yn perthyn i'w gilydd ac sy'n rhannu un neu ragor o amwynderau sylfaenol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.